# Swyddog Ieuenctid Datblygu'r Iaith Gymraeg – Sir Ddinbych

## Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd:** | Swyddog Ieuenctid Datblygu'r Gymraeg - Sir Ddinbych |
| **Yn atebol i:** | Swyddog Datblygu Sir Ddinbych a thrwyddi hi i Gyfarwyddwr Talaith y Gogledd, Urdd Gobaith Cymru. Bydd yn adrodd i Bwyllgor Llywio'r prosiect a fydd yn cynnwys Urdd Gobaith Cymru a Cyngor Sir Ddinbych. |
| **Cyflog:** | Ar raddfa 5 Strwythur Cyflog yr Urdd £16,925 (pnt 1) hyd £19,621 (pnt 6). Penodir ar bwynt 1 oni bai fod profiad/cymwysterau arbennig yn denu un pwynt ychwanegol. |
| **Hyd y cytundeb:** | Mae'r swydd hon yn cynnig cytundeb hyd diwedd Mawrth 2012.<br>Gall y swydd newid neu ddod i ben yn seiliedig ar unrhyw newid annisgwyl yn sefyllfa ariannol un o'r partneriaid uchod. |
| **Oriau gwaith:** | 35 awr yr wythnos. Oherwydd natur y swydd mae'n ofynnol i'r Swyddog weithio oriau oddi allan i oriau safonol swyddfa. Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn hyblyg yn y cyswllt hwn. Cynigir elfen o hyblygrwydd gydag oriau gwaith a ble mae'n briodol, cynigir oriau dyledus i ffwrdd o'r gwaith mewn trefniant â'r Cyfarwyddwr. |
| **Lleoliad:** | Swyddfa'r Urdd, Dinbych a Swyddfa'r Gwasanaethau Ieuenctid, Llanelwy. |
| **Gwyliau blynyddol:** | Caniateir 25 diwrnod o wyliau blynyddol ac wyth diwrnod o wyliau cyhoeddus - y cyfnodau i'w pennu mewn ymgynghoriad â Chyfarwyddwr y Dalaith. Bydd y gwyliau'n cynyddu i 28 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth ac yna i 33 diwrnod ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth. Bydd angen neilltuo 3 diwrnod ar gyfer y cyfnod rhwng y Nadolig a'r flwyddyn newydd. |
| **Cyfnod prawf:** | Bydd cyfnod prawf o 3 mis. |
| **Pensiwn:** | Bydd cyfle i ymuno â phensiwn mewnol yr Urdd ar unwaith. |
| **Teithio:** | Mae teithio yn rhan annatod o'r swydd, telir lwfans o 40c y filltir. Bydd angen trwydded yrru lân a char ar yr ymgeisydd llwyddiannus. |
| **Gwiriad CRB:** | Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) O Orffennaf 2010 ymlaen byddwn yn mabwysiadu cyfundrefn newydd ISA. |
| **Archwiliad meddygol:** | Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir fynd o dan archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol. |

**Dyletswyddau:**

**Mae'r targedau a'r dyletswyddau isod yn cynrychioli ac yn seiliedig ar ddyheadau Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Sir Ddinbych ac Urdd Gobaith Cymru. Mae'r targedau hefyd yn ymateb i strategaethau'r ddau gorff ac hefyd i Ganllawiau Gwaith Ieuenctid y Cynulliad.**

Prif nod y swydd yw cynyddu gwaith Ieuenctid Cyfrwng Cymraeg yn ardal Sir Ddinbych. Prif oedran targed y swydd yw 11 - 25 oed.

1. Cynyddu cyswllt gyda phobl ifanc 11 - 25 oed gan gynnig gweithdai a digwyddiadau newydd gyda'r bwriad i gynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r iaith Gymraeg.

2. Cynyddu'r nifer o glybiau Ieuenctid Cymraeg/dwyieithog yn ardal Sir Ddinbych gan adnabod ardaloedd ac arweinwyr priodol. Hyfforddi gwirfoddolwyr newydd gan godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg o fewn y clybiau/sesiynau.

3. Gwella a dwysau'r berthynas gydag ysgolion Uwchradd lleol gan dynnu eu sylw a chynyddu ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau a gynigir ac o ganlyniad yn codi proffil gweithgareddau a chyfleoedd cyfrwng Cymraeg yn y cymunedau.

4. Sicrhau fod y gwaith yn cael ei gyd-gordio gyda phartneriaid eraill megis y gwasanaeth ieuenctid, Menter Iaith, Ffermwyr Ifanc, Scouts, Geidiad gan asesu a chreu map o'r ddarpariaeth bresennol ac adnabod bylchau mewn darpariaeth. Bydd hyn hefyd yn amlygu cyfle i lenwi'r bwlch gyda gweithgareddau newydd.

5. Sefydlu a Chefnogi fforymau ieuenctid cyfrwng Cymraeg gan edrych ar beth sydd yn bodoli yn barod o fewn y Sir.

6. Sicrhau fod cyfleoedd i bobl ifanc Sir Ddinbych fynychu cyfnodau preswyl yng ngwersylloedd yr Urdd, teithiau tramor yr Urdd a theithiau undydd gan ehangu ar y ddarpariaeth tu allan i oriau ysgol cyfrwng Cymraeg. Hefyd sicrhau fod cyfle i Ieuenctid Sir Ddinbych gymryd rhan yn Eisteddfodau a Chystadlaethau Chwaraeon yn Sir gan gynorthwyo gyda'r trefniadau pan fo angen.

7. Sicrhau bod rhaglen o gynllunio a gwerthuso manwl. Sicrhau fod cofnod o'r gwaith gan gynnwys data ar niferoedd a gweithgareddau yn cael ei gadw ar raglen maes yr Urdd a systemau data'r Cyngor Sir.

8. Codi a sicrhau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ymysg staff Tîm Gwasanaeth Ieuenctid Sir Ddinbych gan ddysgu Cymraeg syml iddynt ei ddefnyddio gyda'r bobl ifanc.

9. Creu ymwybyddiaeth/rhoi hyfforddiant i Wirfoddolwyr am y pwysigrwydd o'r Gymraeg wrth gynnig sesiynau i Fobl Ifanc Sir Ddinbych.

**Sgiliau**

1. Rhaid bod yn drefnus a meddu ar sgiliau cyfathrebu ac ysgrifennu da.

2. Rhaid meddu ar gymeriad addas i ddelio gydag ystod eang iawn o bobl.

3. Rhaid bod yn hyderus i greu cyfleoedd newydd i bobl ifanc gan adnabod ac ysgogi gwirfoddolwyr / arweinwyr i fod yn rhan o'r datblygiadau.

4. Byddai unrhyw brofiad a chymhwyster mewn gwaith ieuenctid o fantais (cynigir cwrs penodol OCN lefel 3 yn rhan o'r swydd onid yw'r ymgeisydd llwyddiannus eisoes yn meddu'r cymhwyster).

5. Y gallu i adnabod bylchau mewn darpariaeth a gweithio mewn partneriaeth gyda chyrff/ mudiadau sydd yn addas i dargedau'r swydd.

6. Rhaid bod ag ymwybyddiaeth o ddelfrydau ac amcanion Urdd Gobaith Cymru a'i weledigaeth parthed lledaenu'r iaith Gymraeg i blant a phobl ifanc Cymru.

7. Byddai profiad o weithio yn uniongyrchol gyda phobl ifanc - boed yn gyflogedig neu'n wirfoddol, o fantais.

Dylai unrhyw geisiadau ddangos yn glir sut mae unrhyw brofiad blaenorol, a sgiliau, yn cyfateb i'r anghenion a'r dyletswyddau a nodir yn y Disgrifiad Swydd.

**Rhaid i geisiadau gyrraedd:**

**Sian Rogers**
Cyfarwyddwr Talaith y Gogledd/Canolbarth
Swyddfa'r Urdd
Adeilad Deiamwnt
6 Highgate
Dinbych
LL16 3LE

Ceisiadau i'w derbyn erbyn **Hanner Dydd, Awst 2il, 2010 .**

Cynhelir y cyfweliadau ar **Awst 4ydd, 2010.**